

PERYGLON CEMEGOL, BIOLEGOL NEU RADIOLEGOL I FERCHED BEICHIQG A MAMAU NEWYDD



Gall peryglon cemegol, biolegol a radiolegol beri risg iechyd ar ddechrau beichiogrwydd. Nod y cyngor yn y daflen hon yw cefnogi iechyd babanod newydd, neu fabanod sydd heb eu geni eto

PERYGLON CEMEGOL:

Gallent dreiddio i'r corff drwy anadlu, amlyncu, pigidau neu amsugniad drwy'r croen. Mae rhai sylweddau yn hynod beryglus i rywun sy'n ceisio beichiogi neu i ferched beichiog a mamau newydd. Mae'r rhain yn cynnwys carsinogenau, teratogenau a mwtagenau a chânt eu hadnabod gan yr ymadroddion risg canlynol ar daflenni diogelwch cemegol:

R40	Risg posibl o effeithiau anghildroadwy
R45	Gall achosi cancer
R46	Gall achosi niwed genetig etifeddadwy
R49	Gall mewnanadlu'r sylwedd achosi cancer
R60	Gall amharu ar ffrwythlondeb
R61	Gall achosi niwed i fabanod heb eu geni
R62	Risg posibl y gall amharu ar ffrwythlondeb
R63	Niwed posibl i fabanod heb eu geni
R64	Gall achosi niwed i fabanod sy'n cael eu bwydo ar y fron

Mae'n hanfodol rheoli'r cemegau hyn yn ofalus. Bydd asesiad risg yn sicrhau diogelwch merched beichiog a mamau newydd sy'n gweithio mewn labordai lle caiff cemegau tebyg eu defnyddio.

PERYGLON BIOLEGOL:

Dosbarthir peryglon biolegol gan yr HSE i 4 categori - grŵp perygl 4 yw'r mwyaf peryglus. Ym Mhrifysgol Bangor, caiff organebau grŵp perygl 2 eu defnyddio mewn sawl labordy dysgu ac ymchwil. Mae rhai o'r organebau grŵp perygl 2 hyn yn risg i ferched beichiog, e.e. listeria sydd mewn ambell i gaws heb ei basteureiddio.





PELYDRIAD:

Prif ffynhonnell pelydriad ïonig yw'r defnydd o beiriannau pelydr-x a'r defnydd o ffynonellau pelydredd agored. Rhaid i chi ddweud wrth y Swyddog Diogelwch Pelydriad cyn gynted ag y gwyddoch chi eich bod yn feichiog fel bod modd gosod rheolaeth ychwanegol i warchod eich plentyn os bydd angen.

Daw pelydriad anionig o ffynonellau a laserau uwchfioled ac isgoch. Nid yw'r rhain yn peri risg uchel iawn i ferched beichiog nag ychwaith i famau sy'n bwydo ar y fron. Ffynonellau eraill o belydriad anionig yw meysydd a thonnau electromagnetig. Ni ddylid dod i gysylltiad â meysydd electrig a magnetig y tu hwnt i'r terfynau a osodwyd gan yr 'Asiantaeth Diogelwch Iechyd'.



GWYBODAETH BELLACH:

Mae'r cysylltiadau canlynol yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol. Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon cysylltwch â Michele Lake neu Dr John Latchford:

1. Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch Bangor - www.bangor.ac.uk/hss
2. Michele Lake, Ymarferwr Iechyd Galwedigaethol – 01248 382575 / estyniad 2575
3. Dr John Latchford, Swyddog Diogelwch Pelydriad a Diogelwch Biolegol y Brifysgol 01248 382524 / estyniad 2524
4. Llawlyfr i ferched beichiog a mamau newydd (Gwefan HSS)



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Mae risg posibl wrth weithio gydag anifeiliaid os yw'r anifail yn dioddef o haint y gellir ei drosglwyddo i bobl. Mae rhai o'r heintiau hyn, megis chlamydia psittaci, yn risg i ferched beichiog. O ganlyniad, ni ddylai merched beichiog weithio gyda defaid beichiog, ac mae'n rhaid gwneud asesiad risg am yr holl waith sy'n ymwneud ag anifeiliaid neu mewn labordai lle caiff organebau grŵp perygl 2 eu defnyddio.

